

*Gorchymyn Arfaethedig ar gyfer craffu cyn deddfu.*

---

OFFERYNNAU STATUDOL DRAFFT

---

**2009 Rhif**

**Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL**

**DATGANOLI, CYMRU**

**Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd  
Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol) 2009**

*Gwnaed* - - - - - \*\*\*

*Yn dod i rym yn unol ag Erthygl 1*

Yn Llys Palas Buckingham, y \*\*\* dydd o \*\*\* 2009

Yn bresennol

Ei Hardderchocaf Fawrhydi'r Frenhines yn y Cyfrin Gyngor

Yn unol ag adran 95(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(a), gosodwyd drafft o'r Gorchymyn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a dau Dŷ'r Senedd a chymeradwywyd ef drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chan ddau Dŷ'r Senedd.

Gan hynny, mae'n bleser gan Ei Mawrhydi, yn unol ag adran 95(1) a (3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yn ôl cyngor a chyda chyngor Ei Chyfrin Gyngor, orchymyn fel a ganlyn:-

**Enwi a chychwyn**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol) 2009 a daw i rym drannoeth y diwrnod y'i gwneir.

**Diwygiadau i Ran 1 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006**

2.—(1) Diwygier Maes 15 (lles cymdeithasol) o Ran 1 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn unol â'r erthygl hon.

(2) Ar ôl mater 15.8 mewnosoder-

---

(a) 2006 p.32.

“*Mater 15.9*”

Cefnogi darparu gofal gan ofalwyr a hybu llesiant gofalwyr.

Mae'r mater hwn yn cynnwys, yn benodol, wasanaethau gofal cymdeithasol i gynorthwyo gofalwyr.

Yn y mater hwn, ystyr “gofalwyr” yw unigolion sy'n darparu neu'n bwriadu darparu maint sylweddol o ofal ar sail reolaidd—

- (a) i blentyn â nam corfforol neu feddyliol, neu
- (b) i unigolyn sy'n 18 oed neu drosodd,

ond nid yw'n cynnwys unigolion sy'n darparu gofal neu'n bwriadu darparu gofal—

- (a) yn rhinwedd contract cyflogaeth neu contract arall gydag unrhyw berson, neu
- (b) fel gwirfoddolwr i unrhyw gorff (p'un a yw wedi'i ymgorffori ai peidio).”

(3) O dan y pennawd “*Dehongli'r maes hwn*”, yn y diffiniad o “gwasanaethau gofal cymdeithasol”, ar ôl “gwasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl,” mewnosoder “gwybodaeth,”.

### **Eithriadau i faterion yn Rhan 1 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006**

3.—(1) Diwygier adran 94 o Ddeddf 2006 yn unol â pharagraffau (2) i (4).

(2) Yn is-adran (4)(a), ar ôl “Schedule 5” mewnosoder “and does not fall within any of the exceptions specified in paragraph A1 of Part 2 of that Schedule (whether or not the exception is under a heading corresponding to the field which includes the matter)”

(3) Yn is-adran (6)(a), yn lle “restrictions in” rhodder “paragraphs 1 to 6 of”.

(4) Yn is-adran (7), ar ôl “Schedule 5” mewnosoder “(or falls within any of the exceptions specified in paragraph A1 of Part 2 of that Schedule)”.

(5) Yn adran 101(1)(a), ar ôl “Schedule 5” mewnosoder “(or falls within any of the exceptions specified in paragraph A1 of Part 2 of that Schedule)”.

(6) Diwygier Atodlen 5 i Ddeddf 2006 yn unol â pharagraffau (7) i (12).

(7) Yn Rhan 1 o Atodlen 5—

- (a) ym mater 10.1 hepgorer y geiriau o “This does not include” hyd at ddiwedd y mater hwnnw;
- (b) hepgorer y geiriau a'r tablau o “EXCEPTIONS TO MATTERS” hyd at ddiwedd y Rhan honno.

(8) Yn lle'r pennawd i Ran 2 o Atodlen 5 rhodder “EXCEPTIONS TO MATTERS AND GENERAL RESTRICTIONS ”

(9) Ar ôl y pennawd i Ran 2 o Atodlen 5 mewnosoder—

#### “Eithriadau i faterion

A1 Dyma'r eithriadau a grybwyllir yn adran 94(4)(a) a (7)—

#### *Priffyrdd a thrafnidiaeth (maes 10 o Ran 1)*

- (1) Cofrestru gwasanaethau bysiau lleol a chymhwyso a gorfodi amodau rheoleiddio traffig ynghylch y gwasanaethau hynny.
- (2) Rheoleiddio'r defnydd o gerbydau modur ar ffyrdd, eu gwneuthuriad a'u cyfarpar a'r amodau y caniateir eu defnyddio felly odanynt.

- (3) Tramgwyddau traffig ffyrdd.
- (4) Trwyddedu gyrwyr.
- (5) Hyfforddiant gyrru.
- (6) Yswirio cerbydau modur.
- (7) Oriau gyrwyr.
- (8) Rheoleiddio traffig ar ffyrdd arbennig, croesfannau i gerddwyr, arwyddion traffig (heblaw am osod a chynnal a chadw arwyddion traffig o fewn ystyr adran 177 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 at ddibenion mater 10.1) a therfynau cyflymder.
- (9) Trwyddedu gweithredwyr cerbydau gwasanaethau cyhoeddus.
- (10) Darparu a rheoleiddio gwasanaethau rheilffyrdd, ar wahân i gymorth ariannol--
  - (a) nad yw'n ymwneud â chludo nwyddau,
  - (b) nas gwneir mewn cysylltiad â gorchymyn gweinyddu rheilffordd, ac
  - (c) nas gwneir mewn cysylltiad â Rheoliad y Cyngor (EEC) 1191/69 fel y'i diwygiwyd gan Reoliad y Cyngor (EEC) Rhif 1893/91 ar rwymedigaethau gwasanaeth cyhoeddus mewn trafndiaeth.
- (11) Diogelwch trafndiaeth.
- (12) Llongau, ar wahân i gymorth ariannol ar gyfer gwasanaethau llongau i Gymru, o Gymru neu yng Nghymru.
- (13) Hawliau a rhyddidau mordwyo, ar wahân i reoli gwaith a all rwystro neu beryglu mordwyaeth.
- (14) Safonau technegol a safonau diogelwch llestrau. (h.y. llongau, cychod, badau, etc.)
- (15) Harbyrau, dociau, glanfeydd a llithrffyrdd i gychod ar wahân i'r rheini a ddefnyddir neu y mae'n ofynnol eu cael yn gyfan gwbl neu yn bennaf ar gyfer cysylltiadau rhwng mannau yng Nghymru.

*Lles cymdeithasol (maes 15 o Ran 1)*

- (1) Cymorth i blant.
- (2) Cronfeydd ymddiriedolaethau plant, ac eithrio taliadau i mewn i gronfeydd o'r fath gan—
  - (a) cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru, neu
  - (b) Gweinidogion Cymru.
- (3) Credydau treth.
- (4) Budd-dal plant a lwfans gwarcheidwad.
- (5) Nawdd cymdeithasol.
- (6) Cronfeydd byw'n annibynnol.
- (7) Motability.
- (8) Taliadau niwed drwy frechiad.
- (9) Mabwysiadu rhwng gwledydd, ac eithrio asiantaethau mabwysiadu a'u swyddogaethau, a swyddogaethau'r "Awdurdod Canolog" o dan Gonfensiwn yr Hâg

ar Amddiffyn Plant a Chydweithredu mewn cysylltiad â Mabwysiadu rhwng Gwledydd.

(10) Y Comisiynydd Plant a sefydlwyd o dan Ddeddf Plant 2004.

(11) Cyfraith teulu ac achosion teuluol ac eithrio—

- (a) cyngor i lysoedd ynghylch lles, cynrychiolaeth a darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth arall i blant sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ac i'w teuluoedd, a
- (b) swyddogion achosion teuluol ar gyfer Cymru.

(12) Bwydydd lles.

Cyfyngiadau cyffredinol

(10) Yn lle'r pennawd i Ran 3 o Atodlen 5 rhodder "EXCEPTIONS FROM GENERAL RESTRICTIONS IN PART 2".

(11) Ar ôl y pennawd i Ran 3 o Atodlen 5, mewnosoder—

*“Dehongli*

6Z Yn y Rhan hon ystyr “general restrictions in Part 2” yw paragraffau 1 i 6 o Ran 2.”

(12) Yn Rhan 3 o Atodlen 5, yn lle “Part 2 does not” (bob tro y mae'n digwydd) rhodder “The general restrictions in Part 2 do not”.

*Enw*

Clerc y Cyfrin Gyngor

**GWNEIR GORCHMYNION CYMHWYSEDD DEDDFWRIAETHOL YN SAESNEG YN UNIG. CYFIEITHIAD I'R GYMRAEG ER GWYBODAETH YW HWN AC NID OES IDDO RYM CYFREITHIOL.**

**LCOS ARE MADE IN ENGLISH ONLY. THIS IS A TRANSLATION INTO WELSH FOR INFORMATION AND IT HAS NO LEGAL EFFECT.**

## **NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006") a darpariaethau eraill Deddf 2006 ynghylch cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r Gorchymyn yn estyn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud cyfreithiau a elwir yn Fesurau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y cyfeirir atynt yn Neddf 2006 fel "Mesurau'r Cynulliad"). Mae'r cymhwysedd deddfwriaethol a roddir gan y Gorchymyn hwn yn ddarostyngedig i gyfyngiadau cyffredinol ar arfer y cymhwysedd deddfwriaethol hwnnw, sy'n gymwys yn rhinwedd adran 94 o Ddeddf 2006 ac Atodlen 5 iddi (fel y'i diwygir gan y Gorchymyn hwn).

Mae erthygl 2 yn mewnosod mater 15.9 ym maes 15 (lles cymdeithasol) o Ran 1 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006. Mae'r mater yn ymwneud â chefnogi darparu gofal gan ofalwyr a hybu llesiant gofalwyr.

Mae erthygl 3 yn diwygio adran 94 o Ddeddf 2006 a Rhan 2 o Atodlen 5 i'r Ddeddf honno i ddarparu ar gyfer eithriadau sy'n gymwys i bob mater yn Rhan 1 o Atodlen 5. Mae hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Ran 3 o Atodlen 5 a darpariaethau eraill yn Neddf 2006.

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol llawn wedi'i lunio ar gyfer yr offeryn hwn, gan na ragwelir y bydd yr offeryn yn effeithio o gwbl ar y sector preifat na'r sector gwirfoddol.